Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer Hap Samplu y Panel Craffu

## Achosion â chyffuriau

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel ar Achosion Ieuenctid

## Rhagfyr 2025

## Cynnwys

1.0 Trosolwg ........................................... **Error! Bookmark not defined.**

2.0 Cefndir, diben a methodoleg................. **Error! Bookmark not defined.**

3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel............................................ 3

4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel ........................ 3

5.0 Meysydd i'w gwella a themâu sy'n codi dro ar ôl tro (achosion ieuenctid) .... 3

6.0 Ystyried achosion ieuenctid............................................................... 3

7.0 Asesiadau'r panel hyd yma ............................................................... 6

8.0 Ethnigrwydd a Rhyw.......................................................................... 8

9.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol ............................................................... 9

10.0 Camau gweithredu ............................................................................ 9

## 1.0 Trosolwg

Ar 16 Rhagfyr 2025, mynychodd aelodau o'r panel craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys gyfarfod i adolygu detholiad o wyth achos oedolion a saith achos ieuenctid yn ymwneud â throsedd Cyffuriau yr ymdriniwyd â hwy trwy ddatrysiad y tu allan i'r llys. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r panel mewn perthynas â'r achosion ieuenctid.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir trwy gyfrwng Microsoft Teams.

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Diben y panel craffu ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys yw asesu, craffu a rheoli yn annibynnol ansawdd y defnydd o ddatrysiad y tu allan i'r llys gan Heddlu Dyfed-Powys. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arfer gorau a nodi anghenion datblygu polisi neu anghenion hyfforddiant posibl i'w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig. Ni all y panel newid canlyniad gwreiddiol yr achos.

Mae aelodaeth y panel yn cynnwys partneriaid o fewn y system cyfiawnder troseddol sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a mainc o ynadon.

Gyda'i gilydd mae aelodau'r panel yn cytuno ar faes i ganolbwyntio arno ym mhob cyfarfod. Maent yn cael ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod, sydd wedi'u dewis ar hap gan gadeirydd y panel. Yna, mae'r panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle bo'n bosibl, yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwarediad. Wrth benderfynu ar hyn, mae'r panel yn ystyried y meini prawf canlynol:

- Barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr.
- Cydymffurfedd â pholisi'r heddlu.
- Y rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad.
- Yr effaith bosibl ar y gymuned.
- Yr amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.
- Opsiynau eraill posibl a allai fod wedi bod ar gael.

Mae'r panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- Defnydd priodol sy'n gyson â pholisi.
- Defnydd priodol ond bod gan aelodau'r panel beth amheuaeth.
- Defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.
- Y panel yn methu â dod i gasgliad.

## 3.0 Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel

Gallaf __Carys Morgans_(printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y farn a fynegwyd gan y panel yn ystod ein hymarfer hapsamplu dyddiedig 16 Rhagfyr 2025.

Llofnod: 

Dyddiad: 25/03/2026

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel

O ganlyniad i waith panel craffu'r datrysiad y tu allan i'r llys, mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:

- Mae cyfarfod wedi'i drefnu rhwng Cadeirydd a chynrychiolwyr y Panel ac arweinydd yr Heddlu ar Blismona sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn i drafod y defnydd anghyson o ddatrysiadau y tu allan i'r llys, a'r defnydd amhriodol o Warediadau Adferol Ieuenctid yn ardal Dyfed-Powys.
- Rhoddwyd adborth i Swyddogion lle'r oedd y Panel yn ystyried bod y defnydd o ddatrysiad y tu allan i'r llys yn amhriodol.

## 5.0 Meysydd i'w gwella a themâu sy'n codi dro ar ôl tro (achosion ieuenctid)

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella a themâu sy'n codi dro ar ôl tro wrth adolygu'r achosion ieuenctid:

- Mynegodd y Panel bryderon nad oedd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau a gynhaliwyd gyda'r bobl ifainc yn cydymffurfio â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn y rhan fwyaf o'r achosion a adolygwyd.
- Nodwyd y gallai'r manylion a gofnodir o fewn y cofnodion fod yn gliriach i amlinellu rhesymeg y Swyddogion.

## 6.0 Ystyried achosion Ieuenctid

Adolygodd aelodau'r panel saith achos yn ymwneud ag ieuenctid. O'r rhain, yn nhri achos cyhoeddwyd gweithgarwch dargyfeiriol, addysgol neu ymyrryd (canlyniad 22), dau drwy ddatrysiad cymunedol ieuenctid, a dau drwy Rybudd Amodol Ieuenctid.

Roedd asesiadau'r aelodau fel a ganlyn:

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 1 |
| Priodol gydag amheuon | 4 |
| Amhriodol | 2 |

**Achos 1**

Er bod Canlyniad 22 yn briodol yn yr amgylchiadau ar gyfer achos hwn, mynegodd y Panel bryderon mewn perthynas â chydymffurfiaeth â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol gan nad oedd y troseddwr honedig wedi'i gyfweld yn briodol ym mhresenoldeb oedolyn priodol. Cytunodd y Panel ei bod hi'n bwysig sicrhau eu bod nhw'n parhau i gydymffurfio â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol er bod yr Heddlu'n ymgymryd ag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y plentyn tuag at blismona. Nodwyd y byddai hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Cadeirydd gydag arweinydd yr Heddlu ar gyfer Plismona sy'n canolbwyntio ar y Plentyn.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 2**

Trafodwyd bod y troseddwr honedig yn agored i niwed ac ystyriwyd bod y drosedd dan sylw'n isel. Cydnabu'r Panel gyfathrebu rhagweithiol y Swyddogion gyda swyddog y Tîm Troseddau Ieuenctid hefyd, a'r amser byr a gymerwyd i ddod â'r mater i ben. Gan hynny, ystyriwyd bod y Rhybudd Amodol Ieuenctid a gyhoeddwyd yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 3**

O ystyried amgylchiadau'r digwyddiad, ystyriodd y Panel bod y canlyniad 22 a gyhoeddwyd yn briodol, fodd bynnag, mynegwyd amheuon mewn perthynas â'r manylion o fewn yr adroddiad a pha un ai a oedd y cyfweliad a gynhaliwyd gyda'r troseddwr honedig yn cydymffurfio â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 4**

Tra bod y Panel wedi dod i'r casgliad bod y Datrysiad Cymunedol Ieuenctid yn briodol yn yr amgylchiadau a gyflwynwyd, mynegwyd pryderon mewn perthynas â chydymffurfiaeth â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol a diogelu. Cydnabu'r Panel bod manylion wedi'u cofnodi o fewn yr adroddiad o gwmpas cydymffurfiaeth â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, ond nodwyd bod yr oedolyn priodol dan ddylanwad a bod datrysiad cymunedol oedolyn wedi'i roi iddo am feddu ar gocên. Nid oedd y Panel yn gallu nodi unrhyw fesurau diogelu a roddwyd mewn grym ar gyfer y troseddwr honedig a daethant i'r casgliad y dylid fod wedi cymryd ymagwedd fwy rhagweithiol er y gallai'r canlyniad fod heb newid.

**Asesiad y Panel:  Amhriodol**

**Achos 5**

Ar ôl adolygu'r achos, nododd y Panel fod y Rhybudd Amodol Ieuenctid a gyhoeddwyd yn briodol yn yr amgylchiadau. Fodd bynnag, mynegwyd amheuon unwaith yn rhagor mewn perthynas â chydymffurfiaeth â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol gan nad oedd manylion wedi'u cofnodi o fewn y cofnod.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 6**

Cydnabu'r Panel y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud gan y Goruchwylydd a gywirodd y Swyddog na ellir defnyddio Gwarediad Adferol Ieuenctid ar gyfer trosedd cyffuriau. Cytunwyd bod amheuon mewn perthynas â'r troseddwr honedig yn cyfaddef i'r drosedd heb fod oedolyn priodol yn bresennol, er bod canlyniad 22 yn briodol.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 7**


Mynegodd y Panel eu pryderon mewn perthynas â'r achos hwn gan fod y troseddwr honedig wedi cyfaddef i'r drosedd dan ddylanwad. Mynegwyd pryderon pellach mewn perthynas â diffyg manylion o fewn y cofnod o ran sut yr oedd y broses yn cydymffurfio â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol. Nododd Pennaeth Gwasanaethau Dalfa, y Prif Arolygydd Jones, sut yr oedd canllawiau wedi'u hysgrifennu ar gyfer Swyddogion a'u bod wedi'u dosbarthu ar draws yr Heddlu yn ddiweddar. Cytunwyd y byddai cam gweithredu'n cael ei gymryd i rannu canfyddiadau'r Panel ag arweinydd yr Heddlu dros blant.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

| **Cam Gweithredu 1** |
|---|
| Rhannu canfyddiadau'r Panel ag arweinwyr Heddlu Dyfed-Powys ar Blismona Plant mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol. |


## 7.0 Asesiadau'r Panel hyd yma

Mae'r siart isod yn arddangos asesiad y Panel o achosion cyffuriau sy'n ymwneud ag ieuenctid a gafodd eu hystyried yn y cyfarfod diwethaf:





Mae'r Panel wedi ystyried amryw o warediadau. Roedd y gwarediadau a ystyriwyd ym mis Rhagfyr 2024 yn cynnwys 80% o warediadau adferol ieuenctid a 10% o ddatrysiadau cymunedol ieuenctid. Ym mis Rhagfyr 2025, ymdriniwyd â 42% drwy weithgarwch dargyfeiriol, addysgol neu ymyrryd (canlyniad 22), 29% drwy rybudd amodol ieuenctid a 29% drwy ddatrysiad cymunedol ieuenctid.


Gellir gweld y newid yng nghasgliadau'r Panel o fis Rhagfyr 2024 i fis Rhagfyr 2025 yn y graff isod:




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Ebrill 2023 a Rhagfyr 2025.





Mae'r graff canlynol yn dangos nifer gwirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y panel o ganlyniad yn eu cyfarfodydd rhwng Ebrill 2023 a Rhagfyr 2025.




## 8.0 Ethnigrwydd a Rhyw

Mae'r siart canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran rhyw:




Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.

| Ethnigrwydd a Nodwyd | Hunan-asesiad y Sawl a Ddrwgdybir | Asesiad y Swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 6 | 0 |
| Gwyn – Gogledd Ewrop | 0 | 6 |
| Anhysbys | 1 | 1 |

Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb o ran hil na rhyw fel rhan o adolygiad y Panel.

## 9.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y panel yr hoffent ganolbwyntio ar achosion siopladrata yn y cyfarfod nesaf.

## 10.0 Camau Gweithredu

| Rhif y cam gweithredu | Crynodeb | I'w ddatblygu gan |
|---|---|---|
| OOCR – 165 | Rhannu canfyddiadau'r Panel ag arweinwyr Heddlu Dyfed-Powys ar Blismona Plant mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol. | SCHTh/Yr Heddlu |